# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Gorffennaf 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Ron Davies (Caerffili);** A wnaiff roi manylion am y swyddogaethau hynny y mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb amdanynt i'r Dirprwy Brif Weinidog. (WAQ19121)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19122)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19127)

**Alison Halford (Delyn);** Sut fydd y pecynnau ariannol sy'n gysylltiedig â'r Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol yn cael eu dosbarthu. (WAQ19133)

**Alison Halford (Delyn);** Pa effaith a gaiff y Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol ar bobl yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. (WAQ19134)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl 'grwpiau gorchwyl a gorffen', yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei hadran ers mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002 (b) aelodaeth yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill. (WAQ19135)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog egluro rheolau a chyfrifoldebau craidd y grp gorchwyl a gorffen y mae ei hadran hi yn ei sefydlu. (WAQ19136)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a

gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19125)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl 'grwpiau gorchwyl a gorffen', yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei adran ers mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002 (b) aelodaeth yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill. (WAQ19137)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog egluro rheolau a chyfrifoldebau craidd y grp gorchwyl a gorffen y mae ei adran ef yn ei sefydlu. (WAQ19138)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i fanteision band llydan i ddarpar fusnesau a phobl sydd am ei ddefnyddio yn eu cartrefi yng Ngogledd Cymru. (WAQ19139)

**Alison Halford (Delyn);** Sut yn union fydd academyddion ac eraill yn Nelyn yn cael budd o'r £18 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer band llydan. (WAQ19140)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod yr holl seilwaith angenrheidiol yn ei lle fel bod yr holl ffibr optig sydd eisoes wedi ei osod yng Ngogledd Cymru ar gael i'w ddefnyddio gan y nifer fwyaf posibl o gwsmeriaid. (WAQ19141)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau a gymerwyd gan y Gweinidog i sicrhau bod yr holl galedwedd/meddalwedd a brynwyd i helpu i gyflwyno band llydan yn gydnaws â VDSL (*Very High Speed Data Subscriber Line*). (WAQ19142)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, faint o arian sydd wedi ei neilltuo mewn rhaglenni Grant Gwella Trefi ar gyfer y Rhyl, Prestatyn a Dinbych. (WAQ19157)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, ym mha ddulliau penodol y mae'r rhaglenni Grant Gwella Trefi ar gyfer y Rhyl, Prestatyn a Dinbych wedi gwella'r mannau ar gyfer y cyhoedd. (WAQ19158)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am y grantiau a gynigiwyd gan y Fenter Pentrefi a Threfi Bychain (STVEI) i fusnesau yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19159)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, a wnaiff y Gweinidog ddweud sut y mae'r grantiau STVEI a roddwyd i fusnesau yn Rhuthun o fudd i etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19160)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, a wnaiff y Gweinidog roi manylion

am y grantiau o £1.25 miliwn a roddwyd gan Fwrdd Croeso Cymru yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19161)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am swm y grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a roddwyd i fusnesau yn etholaeth Dyffryn Clwyd ers mis Mai 1999 ynghyd â nifer y swyddi a grewyd gan bob grant a'r cwmnïau y rhoddwyd y grantiau iddynt. (WAQ19162)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut y mae cyllid Amcan Un yn cael ei wario yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19163)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Hyd yma, faint o gyllid Amcan Un, (a) sydd wedi ei neilltuo ar gyfer, a (b) sydd wedi ei wario yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19164)

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19128)

**Alison Halford (Delyn);** Sut y mae aelodau a chadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu penodi. (WAQ19143)

**Alison Halford (Delyn);** A gaiff aelodau a chadeiryddion yr holl Fyrddau Iechyd Lleol eu hailbenodi trwy gystadleuaeth agored. (WAQ19144)

**Alison Halford (Delyn);** Pa reolaethau a systemau sicrhau cydbwysedd sydd yn eu lle i wneud yn siwr bod yr holl benodiadau i'r Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu gwneud mewn ffordd gytbwys a niwtral. (WAQ19145)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y bobl ifanc ar y Byrddau Iechyd Lleol. (WAQ19146)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl 'grwpiau gorchwyl a gorffen', yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei hadran ers mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002 (b) aelodaeth yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill. (WAQ19147)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog egluro rheolau a chyfrifoldebau craidd y grwpiau gorchwyl a gorffen y mae ei hadran yn eu sefydlu (WAQ19148)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gynlluniau a wnaed gan y Gweinidog i wneud yn siwr nad oes prinder gwelyau yn ysbytai Cymru y gaeaf hwn. (WAQ19149)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei hateb i WAQ18778, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid i gefnogi'r Sector Gofal Cartref Annibynnol ac annog y mentrau cydweithio yn etholaeth Dyffryn Clwyd y cyfeirir atynt yn y trydydd pwynt bwled. (WAQ19154)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei chyhoeddiad ar 20 Mehefin am y targedau staffio ar gyfer y GIG, a wnaiff y Gweinidog nodi faint o'r meddygon, nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ychwanegol fydd yn gweithio yn (a) ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych a (b) Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych erbyn 2010. (WAQ19155)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19123)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog nodi pa rai o'r mentrau y mae'n cyfeirio atynt sydd, mewn gwirionedd, yn rhan o'i bortffolio. (WAQ19151)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am y 5 prosiect a grybwyllir yn y pwynt bwled cyntaf. (WAQ19152)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am y 3 prosiect Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn etholaeth Dyffryn Clwyd a grybwyllir yn y trydydd pwynt bwled. (WAQ19153)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19124)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid a neilltuwyd i ysgolion Dyffryn Clwyd o'r Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Cymru Gyfan. (WAQ19156)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a

gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19126)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Agored

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19129)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost am y flwyddyn ariannol nesaf i Adran y Gweinidog o'r cynnydd yn y cyfraddau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2002. (WAQ19130)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn dilyn ei hateb i WAQ18777, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am bob grant a roddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru i gyrff yn etholaeth Dyffryn Clwyd. (WAQ19150)